Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd - Cyfeirnod. DL 222

**Amseru:**

**Teitl: Parhau i ariannu gwaith atal TTIA yn 2021/22**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Comisiynu**

**Crynodeb Gweithredol:**

Gan gychwyn yn 2017, cymeradwyodd CHTh achos busnes ar gyfer rhaglen waith amlasiantaeth a gyflwynir gan Dimoedd Troseddau Ieuenctid ac Atal ledled ardal Dyfed-Powys. Cost hyn oedd tua £180,000 y flwyddyn.

Mae'r Timoedd Troseddau Ieuenctid wedi cyflwyno adroddiadau cynnydd a pherfformiad yn ystod y prosiect ac wedi cwrdd ar sail chwarterol â'r CHTh i'w ddiweddaru ynglŷn ag effaith sylweddol a chadarnhaol y gwaith ar bobl ifainc sydd mewn perygl o droseddu.

Roedd yr achos busnes gwreiddiol yn cynnwys cynnig ar gyfer gwerthusiad ffurfiol o effaith y gwaith i'w gyflawni ar ei ddiwedd. Ym mis Ebrill 2021, cychwynnodd Prifysgol Aberystwyth y gwerthusiad hwn, a bydd drafft terfynol yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2021.

Mae'r gwerthusiad yn arddangos effaith gadarnhaol gwaith atal yn gyffredinol, ond yn nodi bod cyllid CHTh yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â mewnbynnau ariannu eraill, ac felly'n ei gwneud hi'n heriol darparu targedau cyflawnadwy penodol yn erbyn cyllid CHTh yn unig.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwerthusiad, argymhellir bod CHTh yn ymrwymo'r lefel ariannu presennol ar gyfer gweddill y flwyddyn 2021/22, sydd gyfystyr â £90,000 ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2021 – 31 Mawrth 2022. Argymhellir ymhellach fod CHTh yn lleihau'r ymrwymiad o 50% i gyfraniad o £90,000 ar draws y 4 TTIA ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023 o ystyried y dirwedd ariannu ehangach.

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

**Argymhelliad:**
Bod CHTh yn cymeradwyo parhad y trefniadau ariannu presennol ar gyfer Timoedd Troseddau Ieuenctid ac Atal ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2021 – 31 Mawrth 2022, â gostyngiad disgwyliedig o 50% ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2023.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:**

**Dyddiad: 29.7.2021**